## COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR CRAFFU CYNLLUNIO**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR CRAFFU CYNLLUNIO - DYDD IAU, 9 TACHWEDD 2023 DYDD IAU, 9 TACHWEDD 2023**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: L. WINNETT (CADEIRYDD)

Councillors P. Baldwin (Is-gadeirydd)
J. Holt
E. Jones
L. Parsons
D. Rowberry
C. Smith
M. Day
W. Hodgins
G. Humphreys
J. Thomas
D. Wilkshire

WITH: Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu x 2
Swyddog Cynllunio
Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol

## DECISIONS UNDER DELEGATED POWERS

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na chafwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.<br><br>**CYDYMDEIMLAD**<br><br>Dymunai'r Is-gadeirydd gyflwyno cydymdeimlad ar ran y Pwyllgor | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cynllunio i deulu Sally Ann Evans, Cyfreithiwr, yn dilyn ei marwolaeth drist.<br><br>Hysbysodd yr Is-gadeirydd yr Aelodau ymhellach am farwolaeth drist Mr Bobby Davies, tad y Cynghorydd Winnett (Cadeirydd) a fu farw'n sydyn dros y Sul a dymunai'r Is-gadeirydd gyflwyno cydymdeimlad i'r Cadeirydd a'i theulu ar ran y Pwyllgor Cynllunio.<br><br>Cafwyd munud o dawelwch fel arwydd o barch. | |
| **No. 2** | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Cafwyd yr ymddiheuriadau dilynol am absenoldeb:-<br><br>Cynghorydd C. Bainton; a'r<br>Cynghorydd Jen Morgan. | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni wnaed unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **<u>DIWEDDARIAD AR APELIADAU, YMGYNGHORIADAU A DATBLYGIADAU O ARWYDDOCÂD STATUDOL HYDREF 2023</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 5** | **<u>RHESTR CEISIADAU A BENDERFYNWYD DAN BWERAU DIRPRWYEDIG RHWNG 22 MEDI 2023 A 25 HYDREF 2023</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Swyddog Cymorth Busnes.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 6** | **<u>NODIADAU CYNGOR CYNLLUNIO DIWYGIEDIG (PANS)</u>** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau.<br><br>Os cânt eu mabwysiadu, cynigiwyd y dylid anfon y Nodiadau diwygiedig at bob Aelod o'r Cyngor er gwybodaeth.<br><br>PENDERFYNWYD yn unol â hynny.<br><br>PENDERFYNWYD YMHELLACH i dderbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor Cynllunio yn mabwysiadu'r Nodiadau diwygiedig a atodir gyda'r adroddiad hwn (Opsiwn 2). | |
| **No. 7** | **MEYSYDD AR GYFER SESIYNAU GWYBODAETH A HYFFORDDIANT AELODAU**<br><br>Dywedodd y Cadeirydd y byddid yn ail-drefnu'r hyfforddiant gorfodol a gafodd ei ganslo ac y caiff ei gynnal cyn gynted ag sydd modd. | |
| **No. 8** | **ACHOSION CAU GORFODAETH RHWNG 15 AWST 2023 A 24 HYDREF 2023**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol yng nghyswllt y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth, fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra bod yr eitem hon o fusnes yn cael ei chynnal gan ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad sy'n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag unigolyn neilltuol a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |